funded by communities first cymunedau yn gyntaf

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Ebrill/Mai 2009

Lansio Cysgodfa Pobl Ifanc

Dydd Mercher 8 Ebrill
12yp ~ 4yp
Man Chwarae Oldford

Gyda'r tywydd yn gwella, mae Cymdeithas Tenantiaid Oldford a Chymunedau yn Gyntaf Oldford yn cynnal digwyddiad i lansio cyrhaeddiad dwy gysgodfa i bobl ifanc ym Man Chwarae Oldford.

Dewch draw i helpu creu llwybr igam-ogam drwy'r man chwarae neu i ddangos eich doniau creadigol gyda Chelf Graffiti.

Yn dilyn nifer o geisiadau, a'r seti gwych a gynhyrchwyd yn y Digwyddiad Cadw'n Ddiogel ac yn Iach, bydd wyth ohonoch yn cael cyfle i wneud mainc bren o gwmpas y dderwen fydd yn aros yn y man chwarae, at ddefnydd pawb!

Hefyd bydd cyfle i chi ddweud eich dweud ar lawer o faterion gwahanol!

Dewch â'ch ffrindiau gyda chi i fwynhau'r gweithgareddau a'r lluniaeth am ddim!
Os hoffech gynnig eich enw ar gyfer y gweithdy gwneud mainc, neu os am gael mwy o wybodaeth am y digwyddiad hwn,
Cysylltwch â ni ar 556648.

Wnaethoch chi fwynhau Diwrnod o Hwyl Y Trallwng 2008?

Os felly, 'dan ni am glywed gennych! Y gobaith yw cynnal Diwrnod arall o Hwyl eleni, ond mae angen cymaint o wirfoddolwyr ag sy'n bosib i helpu trefnu'r diwrnod, yn ogystal â llawer o gymorth ar y diwrnod.

Os hoffech fod yn rhan o hyn, cysylltwch â ni ar 556648 neu dewch heibio swyddfa Cymunedau yn Gyntaf am sgwrs.

Yn y rhifyn hwn:

Lansio Cysgodfa Pobl Ifanc	*1*
Cadw'n Ddiogel ac yn Iach 2009	*2*
Hysbysebion	*3*
Hel Sbwriel ar Oldford	*4*

Bag siopa cotwm AM DDIM gyda'r rhifyn hwn!

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

LLAIS OLDFORD

Cadw'n Ddiogel ac yn Iach 2009

Ar 19eg, 20fed a 21ain Chwefror 2009, roedd Cymunedau yn Gyntaf Oldford yn gyfrifol am gynnal digwyddiad Cadw'n Ddiogel ac yn Iach. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda dros 200 o bobl yn bresennol.

Nod y digwyddiad oedd hyrwyddo byw yn iach. Fe'i cynhaliwyd yn Ysgol Babanod Oldford, ac yn ystod y tridiau, roedd y ffocws ar agweddau gwahanol ar gadw'n ddiogel ac yn iach. Her Iechyd Cymru a Chyngor Sir Powys oedd noddwyr y digwyddiad hwn.

Roedd nifer o weithgareddau a gweithdai am ddim ar gael, megis;

- arddangosiadau coginio,
- gwaith coed,
- dawnsio neuadd,
- trefnu blodau,
- argraffu bys,
- gwneud papur,
- lliwio,
- gwneud gemwaith,
- gweithdy ailgylchu
- Dawns
- Arddangosfa o dân mewn padell ffrïo
- Arddangosfa o gerfio â llif gadwyn
- Sesiynau trin traed
- Gwiriadau iechyd
- Tylino'r pen yn y dull Indïaidd
- Syniadau Creadigol gyda Ffrwythau
- Gwneud smwddis
- Hel chwilod, bwydo adar a gwestai chwilod
- Datgelu Metel
- Paentio wynebau
- Gêm Monopoly Enfawr
- Drymio Affricanaidd
- Ymwybyddiaeth am fwyd

Yn ogystal â'r llu o weithdai a gweithgareddau, roedd mudiadau a gwasanaethau lleol ar gael i gynnig cyngor a gwybodaeth. Bu Simon O'Rourke yn dangos ei grefft anhygoel o gerfio (o bren) anifeiliaid sy'n byw mewn coetiroedd, cwch, honglathau a meinciau i Ysgol Babanod Oldford—mae'r plant wrth eu bodd-dau yn chwarae ar y rhain. Aeth enw pob ymwelydd mewn i gystadleuaeth am ddim i ennill gwobrau gwych, a derbyniodd pawb fag o nwyddau hwyl.

Dymunwn ddiolch i'r holl wirfoddolwyr ymroddedig am helpu sicrhau fod y digwyddiad yn llwyddiant, yn ogystal â Her Iechyd Cymru a Chyngor Sir Powys am eu nawdd a'u cefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar 01938 556648.

Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

communities first cymunedau yn gyntaf

Cyfarfod PACT
(Partneriaid a Chymunedau gyda'i gilydd)

A drefnir gan Dîm Plismona Bro'r Trallwng
Dydd Iau 2ail Ebrill, 7 o'r gloch
Theatr Clera,
Ysgol Uwchradd Y Trallwng

Edrychwn ymlaen at eich gweld ac at glywed eich barn am eich cymuned.

Meithrinfa 2 - 4 oed (Llun—Gwe)
Plentyn a'i Riant (Bore Llun)
Clwb ar ôl Ysgol a Chlwb Gwyliau (Llun—Gwe)

OPEN DOOR DRWS AGORED

Ffoniwch: 01938 556238 neu
www.opendoorfamilycentre.com

Oldford Voice

Dyddiad cau rhifyn nesaf Llais Oldford yw: **Dydd Llun 25 Mai 2009**

Os hoffech rannu eich newyddion neu hanes gydag Oldford, **ffoniwch ni ar 556648**

Clwb Gwaith Cartref

Yn rhedeg bob dydd Llun
4pm ~ 6pm
Ystafell Gymunedol Clwyd Alyn
Oedran: 8 - 16
Dewch draw i gael hwyl a chyfle i fwynhau'r cyfrifiaduron i wneud eich gwaith cartref! Cyntaf i'r felin fydd hi, ar gyfer y lleoedd sydd ar gael.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 556648

Ariennir gan
Cymunedau @Ei gilydd

communities first cymunedau yn gyntaf

Cwrs Cyfrifiaduron am ddim i Oedolion

Dydd Iau 23 Ebrill 2009
1-3yp
Ysgol Babanod Oldford

Diwrnod: Prynhawn Iau 1.00yp – 3.15yp
Tiwtor: Clare Walters
Tâl: Dim
Pynciau ar gael: Cyhoeddi Pen bwrdd, Y Rhyngrwyd ac Ebost, Excel & Word, Prosesu geiriau, basau data Access, Power-Point
Yn cychwyn: Dydd Iau 23 Ebrill 2009 (am 8 wythnos)

Os bydd digon o alw, bydd hefyd yn rhedeg prynhawn Iau rhwng 3.00yp – 5.15yp - croeso i chi wneud ymholiadau

Efallai y bydd Crèche ar gael i blant dan oedran ysgol, ond cysylltwch â Clare neu Kath i gadarnhau lle

Ffoniwch Kath Jones (Coleg Powys), ar 01686 614210, neu
Clare Walters, ar 01686 670546, i gael mwy o fanylion.

'Dan ni newydd ddosbarthu eich bag siopa cotwm Cymunedau yn Gyntaf Oldford AM DDIM!

Wyddoch chi:
Bod defnyddwyr Prydain yn defnyddio tua 10 biliwn o fagiau siopa plastig bob blwyddyn - sef 290 y pen!

Gan fod safleoedd tirlenwi'n llenwi'n gyflym, mae angen dechrau meddwl am ffyrdd i helpu'r amgylchedd.

Mae'r bagiau cotwm yma'n ffordd wych o siopa gan eu bod yn ecogyfeillgar, yn gryf ac yn hawdd i'w cario!

Oasis

Cyfle i fwynhau cawl cartref a rôl, a chwmni da!
Croeso i bawb!

Dydd Mercher 29 Ebrill, 6.30yh
Ysgol Babanod Oldford
Cost swper fydd £1.00
Mae Oasis yn rhedeg dydd Mercher olaf y mis. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01938 552781

Cofiwch glirio fyny ar ôl eich ci!

Mae baw cŵn yn gallu achosi perygl difrifol i iechyd - i bobl ac anifeiliaid eraill!
Croeso i chi alw heibio swyddfa Cymunedau yn

Wyddoch chi:

Fod ysgarthiad un ci yn cynnwys tua miliwn o wyau microsgopig.

O ganlyniad i gyswllt gyda'r wyau hyn; gall pobl gael yr haint llyngyr, Toxocara.

Gall hyn deillio o gyffwrdd â gwaelod esgid, olwyn beic neu degan sydd wedi cyffwrdd â baw cŵn!

Gyntaf Oldford i gasglu eich bagiau baw cŵn (am ddim) neu gellir defnyddio'r peiriannau dosbarthu'r bagiau ar yr ystâd.

Cofiwch hefyd, na ddylai plant codi ci heb arweiniad neu oruchwyliaeth addas.

LLAIS OLDFORD

Hel Sbwriel ar Oldford

Dydd Mercher 15 Ebrill
Dydd Mercher 27 Mai
11 - 12.30 yp
Man Chwarae Oldford

Dewch draw i helpu tacluso Ystâd Oldford!

* **Gallwch ddefnyddio ein teclynnau hel sbwriel, menig a bagiau!**
* **Helpwch i wella'r amgylchfyd lle rydych yn byw.**
* **Lluniaeth am ddim ar gael**

Cadwch lygad allan am ddigwyddiadau eraill i hel sbwriel ar Oldford.

Diwrnod Tacluso Oldford

Dydd Sadwrn 6 Mehefin
Maes Parcio Prince Of Wales Drive
11 - 2 yp

Cofiwch os oes gennych unrhyw eitemau mewn cyflwr da nad oes eu heisiau bellach, ffoniwch Gynllun Dodrefn Phoenix ar 01686 622717.

Diwrnod o Hwyl Cae Chwarae Scansis a CTO

Dydd Sadwrn 13 Mehefin
Ar gae chwarae Scansis

Hwyl i'r teulu cyfan!

Dylai unrhyw un sydd am gystadlu gyda thîm pêl-droed 5 bob ochr neu sydd am archebu gofod i stondin gysylltu â Wyn ar 554702 neu Liz ar 555269.

Llongyfarchiadau i Ysgol Babanod Oldford

Am gymryd rhan yn y digwyddiad byd eang mwyaf erioed o fwyta bananas er budd Masnach Deg!

Llwyddwyd hefyd i godi £37.50 ar Ddiwrnod Trwynau Cochion ar gyfer Comic Relief a diolchodd UNICEF iddynt am gymryd rhan yn y Diwrnod dros Newid 2009, gan godi £36.87!

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys (CPAT) yn cwrdd â'r clwb datgelu metel 'lleol'!

Ar fore Sadwrn ym mis Chwefror, daeth staff CPAT i gwrdd ag aelodau o Dîm Datgelu Metel Oldford a threulio nifer o oriau yng nghartref Tony Pinchera.

Buont yn adnabod ac yn recordio arteffactau ar gyfer y Cynllun Hynafiadau Cludadwy. Mae Ed Bailey wedi cytuno, yn garedig iawn, i ymgymryd â rôl yr unigolyn sy'n recordio canfyddiadau ar gyfer Tîm Datgelu Metel Oldford.

Teithio am ddim gyda Platform2

Wyt ti rhwng 18 - 25 oed? Buaset ti'n hoffi teithio am 10 wythnos mewn gwledydd megis Periw, Yr India, De Affrica a Ghana?

Os oes gennyt basport Prydeinig, ac yn gallu teithio am 10 wythnos, does dim angen gwario dimau. Telir yr holl gostau'n llawn!

Byddi di'n byw ac yn gweithio gyda grŵp o wirfoddolwyr mewn cymunedau lleol, ac yn gweithio ar brosiectau megis dysgu, adeiladu a chadwraeth. Byddi di'n derbyn cefnogaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y profiad, a thelir yr holl gostau!

Am fwy o wybodaeth, ffonia: 02920844646 neu ebostia: arhys@christian-aid.org

Byns y Grog!!!

Cynhwysion: 500g o flawd cryf, 1+ 1/2 llwy de o halen, 75g siwgr mân, pecyn 7g o furum sych, 300ml o gymysgedd o laeth a dŵr, 150g o syltanas, croen 2 Oren, 80g o bîl cymysg, 2 llwy de o sinamon mâl
I'r sglein: 50g Siwgr, 50ml dŵr

Dull:

1. Rhowch y blawd, halen, siwgr a burum mewn bowlen. Ychwanegwch (yn araf) ddigon o'r dŵr a'r llaeth i wneud toes ystwyth. Trowch y toes allan ar ffwrdd wedi'i ysgeintio â blawd, a'i dylino'n drwyadl am 5 munud, yna rhowch y toes nôl yn y bowlen a'i adael i godi am 1 awr.
2. Cymysgwch y syltanas, pîl cymysg, croen oren a'r sinamon i'r toes a'i adael i godi am 1 awr.
3. Irwch silff pobi. Rhannwch y toes yn ddarnau 75g a'u rholio yn beli. Rhowch nhw ar y silff pobi a'u gadael i orffwys am 1 awr.
4. Cynheswch y ffwrn i 220°C/nwy 8. Pobwch y byns am 25 munud nes eu bod yn euraidd. Cymysgwch y siwgr a'r dŵr ynghyd i wneud surop, a brwsiwch y byns gyda'r surop. Gweinwch ar unwaith.